# Telerau Gwasanaeth i Gwsmeriaid QuestionPoint

## 1. Derbyn y Telerau

Diolch i chi am ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell hwn, sy'n cynnwys Gwasanaeth Cyfeirio QuestionPoint 24/7 a ddatblygwyd gan Lyfrgell y Gyngres, y Gwasanaeth Llyfrgell Cydweithredol Metropolitanaidd, a Chanolfan Llyfrgell Gyfrifiadurol Ar-lein OCLC Inc ac sy'n cael ei gynnal gan OCLC. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu telerau'r amrywiol wasanaethau y mae QuestionPoint yn eu darparu i chi drwy eich llyfrgell. Darllenwch y telerau'n ofalus cyn eu derbyn a chyn defnyddio'r ffurflen hon. Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r Telerau ar unrhyw adeg. Gallwch edrych ar y fersiwn mwyaf diweddar yma neu drwy fynd i www.QuestionPoint.org.

## 2. Diffiniadau

**Gwybodaeth Bersonol –** Gall yr elfennau canlynol weithiau, os nad bob tro, fod yn fodd o adnabod unigolion. Felly, bydd OCLC yn cael gwared ar yr elfennau hyn pan arbedir trafodion o dan Hanes Gwasanaeth..

Cyfeirid e-bost, y rhan *cyn* yr arwydd @.

Enw

## 3. Datganiad Preifatrwydd OCLC

Mae'r Datganiad Preifatrwydd hwn yn amlinellu polisi preifatrwydd OCLC ac yn esbonio beth mae OCLC yn ei wneud gyda'r wybodaeth a gesglir gan y llyfrgelloedd sy'n tanysgrifio i'n gwasanaeth ac a a gedwir ar ein gweinyddion.

At ei dibenion ei hun, gall y llyfrgell sy'n defnyddio'r gwasanaeth Cyfeirio QuestionPoint 24/7 hwn ofyn i chi roi eich enw, cyfeiriad e-bost, cod ZIP, rhif ffôn, rhif cerdyn llyfrgell a gwybodaeth arall iddi. Er nad oes angen y data hyn er mwyn i'n gwasanaeth weithio, efallai y bydd y llyfrgell yn gallu ateb eich cwestiwn yn well a darparu cynnwys mwy perthnasol os byddwch yn darparu gwybodaeth gyflawn a chywir.

Mae eich cyfeiriad e-bost yn galluogi'r llyfrgell i ateb eich cwestiwn dros yr e-bost. Os byddwch yn sgwrsio gyda llyfrgellydd gallwch ddewis aros yn ddienw. Yn aml caiff cwestiynau ac atebion, yn ogystal â thrawsgrifiadau, eu cadw gan y llyfrgell er mwyn i'r llyfrgellwyr allu cysylltu â chi os byddant yn dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am eich cwestiwn. Ni chaiff eich cyfeiriad e-bost llawn ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth arall, ond byddai modd defnyddio'r parth (y rhan *ar ôl* yr arwydd @) i ddadansoddi demograffeg.

Dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni eich cais am wybodaeth y caiff unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir ei datgelu. Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r llyfrgell gyfeirio eich cwestiwn at lyfrgellydd sy'n rhan o'i rhwydwaith, a gaiff weld eich gwybodaeth er mwyn ateb eich cwestiwn a chyfathrebu â chi. Nid yw OCLC yn darparu gwybodaeth bersonol i neb oni fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Byddai modd defnyddio eich cwestiwn, ateb y llyfrgell, ac unrhyw wybodaeth ddemograffig a gesglir, er mwyn dadansoddi defnydd o'r gwasanaeth, gwerthuso ei effeithiolrwydd a darparu deunydd hyfforddiant, ynghyd â hwyluso ymchwil y llyfrgell. Mae'r meysydd Cyfeiriad E-bost ac Enw wedi'u cynllunio'n benodol i gasglu gwybodaeth bersonol a chânt eu dileu cyn i'r trafodion gael eu harbed neu eu trosglwyddo. Fodd bynnag, byddai modd cadw unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych mewn meysydd eraill, fel geiriad eich cwestiwn; felly byddem yn eich annog i roi eich cyfeiriad e-bost a'ch enw, os byddwch yn eu defnyddio o gwbl, *DIM OND* yn y meysydd sydd wedi eu cynllunio'n arbennig ar gyfer gwybodaeth o'r fath.

Er y byddwn yn gwneud ein gorau i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol, rydych yn deall na all OCLC sicrhau na gwarantu diogelwch absoliwt unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei throsglwyddo drwy'r gwasanaeth hwn. Rydych yn cytuno mai eich cyfrifoldeb chi yn unig yw geiriad eich cwestiwn ac unrhyw wybodaeth a ddarparwch ar y ffurflen, a'ch bod yn trosglwyddo gwybodaeth drwy'r gwasanaeth hwn ar eich menter eich hun. Yn ogystal, rydych yn deall sut y gallai'r llyfrgell neu'r llyfrgell gyfeirio ddefnyddio unrhyw wybodaeth bersonol a roddwch ar y ffurflen ac rydych yn cytuno i'r defnydd hwnnw.

Os bydd defnyddiwr yn nodi ei fod/bod yn iau na 13 oed, caiff y wybodaeth ei dileu o'n cofnodion yn unol â Deddf Diogelu Preifatrwydd Plant Ar-lein (Cod U.D. 15, 6501 et seq.).

## 4. Negeseuon i Wasanaethau QuestionPoint

Rydych yn cydnabod ac yn cytuno y gall OCLC gadw'r holl drafodion electronig a wneir rhyngoch chi a'r llyfrgell ar y gwasanaeth hwn ac unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych ar y ffurflen hon, fel y disgrifir yn y *Datganiad Preifatrwydd,* am gyfnod amhenodol, gyda'r eithriad canlynol: caiff eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ac eithrio'r parth eu dileu ar ôl 90 niwrnod. Felly, dim ond fel y disgrifir yn y *Datganiad Preifatrwydd* ac os bydd angen gwneud hynny yn ôl y gyfraith y gall OCLC ddatgelu'r data sydd yn ei feddiant.

Rydych, drwy hyn, yn rhoi hawl barhaol, anghyfyngedig, fyd-eang i OCLC olygu a chasglu pob pâr cwestiwn-ac-ateb cyflawn a gyflwynwyd gennych yn wreiddiol drwy'r ffurflen hon a'u galluogi i gael eu chwilio gan lyfrgelloedd a'r cyhoedd, ar yr amod y caiff pob gwybodaeth bersonol ei dileu o'r testun.

## 5. Ymddygiad Cwsmeriaid

Rydych yn cytuno i beidio â defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell hwn i:

a. Anfon cynnwys sy'n torri unrhyw batent, nod masnach, cyfrinach fasnach, hawlfraint neu hawliau perchnogaeth eraill unrhyw barti.
b. Ymyrryd â neu amharu ar y gwasanaeth neu weinyddion neu rwydweithiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth;
c. Postio unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys firysau meddalwedd neu unrhyw godau, ffeiliau neu raglenni cyfrifiadurol eraill sydd wedi'u cynllunio i ddinistrio, amharu ar neu gyfyngu ar y ffordd y mae unrhyw feddalwedd neu galedwedd cyfrifiadurol neu offer telathrebu yn gweithio.

Mae OCLC yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i ddefnyddwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheolau hyn. Mae modd anfon apeliadau i 'support@oclc.org.'

## 6. Cyfrinair a Diogelwch

Pan fyddwch yn defnyddio'r gwasanaeth hwn am y tro cyntaf, cewch gyfrinair er mwyn cael mynediad i'ch cwestiwn a'ch atebion ar y we (byddwch hefyd yn derbyn pob gohebiaeth dros yr e-bost). Chi sy'n gyfrifol am gyfrinachedd eich cyfrinair a'ch cyfrif ac am logio allan o'ch cyfrif ar ddiwedd pob sesiwn. Rydych yn cytuno i hysbysu eich llyfrgell ar unwaith o unrhyw ddefnydd nas awdurdodwyd o'ch cyfrinair neu'ch cyfrif neu unrhyw achos arall o danseilio diogelwch. Ni fydd OCLC yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a fydd yn deillio o'ch methiant i gydymffurfio â'r adran hon.

## 7. Indemniad

Rydych yn cytuno i indemnio OCLC a'i ryddarbed o unrhyw atebolrwydd yn deillio o (a) unrhyw beth a gyflwynwch drwy'r ffurflen hon neu drwy'ch cyfrif, (b) eich defnydd o'r gwasanaeth hwn, (c) eich cysylltiad â'r gwasanaeth, (ch) torri'r Cytundeb hwn gennych neu (d) dorri unrhyw un o hawliau parti arall.

## 8. Terfynu'r Cytundeb

Rydych yn cytuno y gall OCLC derfynu eich cyfrinair, eich defnydd o'r gwasanaeth hwn neu gael gwared ar eich cwestiynau a thrafodion a gwblhawyd drwy'r gwasanaeth, am unrhyw reswm heb rybudd ymlaen llaw. Yn ogystal, rydych yn cytuno na fydd OCLC yn atebol i chi nac unrhyw drydydd parti am derfynu mynediad i'r gwasanaeth hwn.

## 9. Ymwadiad Gwarantiadau

DRWY DDEFNYDDIO'R GWASANAETH HWN RYDYCH YN CYTUNO:

a. Eich bod yn defnyddio'r gwasanaeth hwn ar eich menter eich hun. Darperir y gwasanaeth "fel y mae" a "phan fo ar gael". Mae OCLC yn gwrthod yn llwyr bob gwarantiad o unrhyw fath, boed yn benodol neu'n ymhlyg, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i warantiadau marchnadwyedd, addasrwydd at bwrpas penodol, a gwarantiadau annhroseddol
b. YW OCLC YN GWARANTU (i) Y BYDD Y GWASANAETH YN BODLONI EICH GOFYNION, (ii) NA FYDD DIM YN AMHARU AR Y GWASANAETH, Y BYDD YN AMSEROL, YN DDIOGEL NEU'N DDI-FAI, A (iii) Y BYDD ANSAWDD UNRHYW GYNNYRCH, GWASANAETHAU, GWYBODAETH NEU DDEUNYDD ARALL A BRYNIR NEU A GEIR DRWY'R GWASANAETH YN BODLONI EICH DISGWYLIADAU.
c. NA FYDD UNRHYW GYNGOR NEU WYBODAETH A GEWCH AR LAFAR NEU'N YSGRIFENEDIG GAN QUESTIONPOINT, NEU DRWY NEU GAN Y GWASANAETH, YN CREU UNRHYW WARANTIAD NA CHAIFF EI NODI'N BENODOL YN NHELERAU'R GWASANAETH. DARPERIR Y GWASANAETH AT DDIBENION GWYBODAETH YN UNIG, AC NI CHAIFF EI GYWIRDEB EI GADARNHAU MEWN UNRHYW FFORDD. NI FWRIEDIR I UNRHYW GYNNWYS AR WASANAETHAU QUESTIONPOINT GYNRYCHIOLI CYNGOR PROFFESIYNOL, BOED FEDDYGOL, ARIANNOL, CYFREITHIOL NEU FEL ARALL.

## 10. Cyfyngiadau Atebolrwydd

RYDYCH YN DEALL AC YN CYTUNO NAD YW OCLC YN ATEBOL AM UNRHYW IAWNDAL UNIONGYRCHOL, ANUNIONGYRCHOL, DAMWEINIOL, ARBENNIG, CANLYNIADOL NEU ENGHREIFFTIOL, YN CYNNWYS, OND NID YN GYFYNGEDIG I, IAWNDAL AM GOLLI ELW, EWYLLYS DA, DEFNYDD, DATA NEU GOLLEDION ANNIRIAETHOL ERAILL (HYD YN OED OS YW OCLC WEDI CAEL EI HYSBYSU AM Y POSIBILRWYDD O IAWNDAL O'R FATH), YN DEILLIO O: (i) DEFNYDD O'R GWASANAETH NEU ANALLU I DDEFNYDDIO'R GWASANAETH; (ii) COST CAFFAEL NWYDDAU A GWASANAETHAU NEWYDD YN DEILLIO O UNRHYW NWYDDAU, DATA, GWYBODAETH NEU WASANAETHAU A BRYNWYD NEU A GAFWYD GAN Y GWASANAETH; (iii) DILEU NEU ADDASU UNRHYW GYNNWYS A GYFLWYNIR NEU A DDARPERIR GENNYCH; neu (iv) UNRHYW FATER ARALL SY'N YMWNEUD Â'R GWASANAETH HWN.